**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy *Microsoft Teams***

**Dydd Mawrth, 13 Gorffennaf 2021 am 4.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu ar gyfer Cofnodion Rhifau 15 – 17 ac 20 - 25
Y Cynghorydd Peter Jones (Cadeirydd etholedig dros dro) fu'n llywyddu ar gyfer Cofnod Rhif 19

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | D W Helliwell | P K Jones |
| H Lawson | W G Lewis | S Pritchard |
| G J Tanner | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P R Hood-Williams | L R Jones |
| S M Jones | J W Jones |

**Hefyd yn Bresennol**

Y Cynghorydd Mark Thomas – Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bob Fenwick | Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley

---

## 15 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd Peter Black – Cofnod Rhif 19 – Datganodd y Cynghorydd Peter Black gysylltiad personol a rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 16 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 17 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

## 18 Ethol Cadeirydd Dros Dro ar gyfer Eitem 5 (Cofnod Rhif 19)

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd Peter Jones yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer eitem 5 ar yr Agenda (Cofnod Rhif 19).

**Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd Dros Dro) fu'n llywyddu**

## 19 Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Derbyniwyd cwestiynau gan ddau aelod o'r cyhoedd, a oedd yn bresennol i ofyn eu cwestiynau, a oedd yn ymwneud ag eitem chwech ar yr agenda (cofnod rhif 20).

Cyflwynodd Ms S Morgan gais, ar ran preswylwyr Green Close, i adfer croesfan a oedd wedi'i thynnu o ddiwedd y ffordd oherwydd y gwaith adeiladu parhaus i'r llwybr beicio ar Mayals Road. Credwyd y byddai diogelwch a mynediad yn cael eu peryglu'n ddifrifol pe na bai croesfan newydd yn cael ei gosod.

Ymatebodd y Cynghorydd Mark Thomas, Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd. Cadarnhawyd y byddai Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 3 yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r gwaith a phe byddai unrhyw broblemau'n cael eu nodi y byddai camau pellach yn cael eu hystyried.

Gofynnodd Mr H Francis y cwestiynau canlynol am y gwasanaeth a ddarperir gan yr Adran Priffyrdd.

1. Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan y cyngor yn dangos ei fod wedi methu â chyflawni ei darged tai ei hun ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf o faint cronnol o tua 50%; Mae contractwyr a datblygwyr yn credu bod oedi o ran gwaith priffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at y methiant hwn. I ba raddau ydych chi'n credu y gall yr Adran Priffyrdd wella ei gwasanaeth i fynd i'r afael â'r diffyg hwn?
2. Ydych yn credu bod gan yr Adran Priffyrdd ddigon o adnoddau ar gael i gyflawni ei swyddogaethau statudol yn ogystal â chefnogi gwaith cyfalaf fel prosiectau adfywio'r cyngor?
3. Oes cwmpas i'r Adran Priffyrdd gontractio gwasanaethau technegol i ymgynghorwyr allanol ymhellach er mwyn helpu i wella ei wasanaeth?

Ymatebodd y Cynghorydd Mark Thomas – Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd. Cydnabuwyd y gallai materion penodol godi ar rai datblygiadau, fodd bynnag, ni chytunwyd bod problem gyffredinol gyda'r gwasanaeth a ddarperir

gan yr Adran Priffyrdd ac, o ystyried amgylchiadau'r pandemig, teimlwyd bod yr adran wedi ymdopi'n eithriadol o dda. Cafwyd trafodaeth ar fater adnoddau, y gallu i lenwi swyddi cymwys yn ogystal â staffio ar gyfer lefelau gwaith newidiol. Cadarnhawyd y gellid defnyddio adnoddau allanol (gan gynnwys contractio gwaith yn allanol) ac roedd adnoddau allanol wedi'u defnyddio lle teimlwyd bod hynny'n angenrheidiol.

**Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu**

## 20 Trafodaeth ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, gyda chefnogaeth Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd ac Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd, adroddiad ar Briffyrdd a Pheirianneg, Isadeiledd a Chynnal a Chadw.

Rhoddwyd cyfeiriad llafar ynghylch yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd yn nodi'n benodol y canlynol:

- Pa waith a wnaed gan yr Is-adran Cynnal a Chadw Priffyrdd a'r hyn yr oeddent yn gyfrifol amdano
- Trefniadau cynnal a chadw a'r gyllideb cynnal a chadw – cyllideb 2021/22 ar gyfer cynnal a chadw oedd £3.9 miliwn. Clustnodwyd £1.4 miliwn ychwanegol am y 4 blynedd diwethaf yn dilyn yr adroddiad comisiynu. Derbyniwyd arian ychwanegol hefyd gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd y rhaglen cynnal a chadw bresennol ar gyfer y cyfnod 2020-2025 – y gobaith oedd y byddai'r rhaglen yn cael ei chwblhau flwyddyn yn gynt na'r disgwyl yn 2024
- Cynhaliwyd Adolygiad Draenio yn 2020/21 – effaith glaw trwm cynyddol ar yr isadeiledd ffyrdd a phriffyrdd
- Gwaith yn ystod y pandemig – parhaodd y gwasanaeth i weithredu drwy gydol y pandemig a gwnaed newidiadau i'r rhaglen er mwyn parhau â'r gwaith gan hefyd gadw staff a'r cyhoedd yn ddiogel e.e. osgoi strydoedd preswyl a dechrau ar waith i ffwrdd o eiddo fel Pont Llwchwr pan oedd cyfrif traffig ar ei isaf erioed
- Roedd rhagor o waith ailwynebu wedi'i wneud o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol – llifogydd a newidiadau i ffiniau wardiau
- Risgiau

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Dyraniad digonol/cywir o adnoddau o ystyried bod ôl-groniad gwerth £70 miliwn o waith
- Blaenoriaethu gwaith
- Eglurhad o'r ffigurau presennol ar gyfer yr ôl-groniad o waith i wneud cymariaethau clir
- Heriau newid yn yr hinsawdd – rhagor o lifogydd, effaith tymereddau cynyddol ar darmac, effaith gaeafau gwlypach/oerach ar arwynebau priffyrdd yn ogystal â llygredd aer

- Mesurau i gynorthwyo gyda heriau newid yn yr hinsawdd – Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), ffosydd cerrig ac ardaloedd wedi'u plannu
- Cyfathrebu/cydgysylltu â chwmnïau cyfleustodau ar waith stryd – rhagor o arwyddion ac eglurder ynghylch pwy oedd yn gwneud y gwaith
- Archwilio gwaith stryd ar ôl cwblhau'r gwaith – nodwyd bod sampl wedi'i phrofi am ansawdd a chydymffurfiaeth
- Cynnal a chadw priffyrdd, e.e. Mater a godwyd yn dilyn amnewid cylchfannau uwch i gylchfannau gwastad – nodwyd problemau a oedd yn ymwneud â chost cynnal a chadw
- Coed yn hongian dros briffyrdd/dail yn disgyn i ddraeniau – pwerau cyfyngedig ar gael i'w gorfodi oni bai fod rhwystr i'r briffordd
- Beiciwr yn goryrru ar lwybrau defnydd a rennir
- Effaith terfyn cyflymder 20 milltir yr awr (mya) yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd preswyl – ariannu, gosod arwyddion a gorfodi
- Timau'r gylïau a pheiriannau'r gylïau sydd ar gael – nododd y timau mai dim ond llifogydd adweithiol oedd yn tarfu ar y gwaith o lanhau rheolaidd
- Draeniau cludo wedi'u blocio – y Tîm Archwilio yn edrych ar hyn

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 21 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Addysg (y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd)

Cyflwynodd y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd, y Diweddariad ar y Panel Craffu Perfformiad Addysg.

Yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, tynnodd sylw'n benodol at dri maes ffocws allweddol:

1. Ysgolion yn rhannu arfer gorau
2. Cymorth i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
3. Parodrwydd ar gyfer y Fargen Ddinesig e.e. Partneriaeth Sgiliau Abertawe

Roedd yr eitem ar aflonyddu wedi'i gohirio a byddai'n cael ei hystyried ym mis Medi, pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

O ran y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), canfu'r Panel fod rhai plant a phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'u cyfoedion yn yr ysgol yn ystod y pandemig. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ailadeiladu'r berthynas rhwng disgyblion ac ysgolion, ac iddynt beidio â chael eu heithrio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Lyndon Jones am y diweddariad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 22 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Nododd y Pwyllgor benodiad Cynullwyr y Panel Perfformiad gan y Paneli perthnasol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22 hyd yn hyn sef:

- Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - ailbenodwyd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams
- Gwasanaethau i Oedolion - ailbenodwyd y Cynghorydd Susan Jones
- Gwella Gwasanaethau a Chyllid – ailbenodwyd y Cynghorydd Chris Holley
- Addysg – ailbenodwyd y Cynghorydd Lyndon Jones
- Amgylchedd Naturiol – ailbenodwyd y Cynghorydd Peter Jones
- Datblygu ac Adfywio – ailbenodwyd y Cynghorydd Jeff Jones

**Penderfynwyd:** -

1) Caiff y Cynghorydd Mike Durke ei dynnu oddi ar y Panel Craffu Perfformiad Addysg

## 23 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu.

Tynnodd sylw at y ffaith bod yr Ymchwiliad Craffu Caffael bellach wedi ailgychwyn. Roedd wedi adolygu a chytuno ar gylch gorchwyl a chwestiwn allweddol ar gyfer yr ymchwiliad. Roedd y panel bellach yn casglu tystiolaeth.

Trefnwyd cynnal cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 17 Awst 2021. Y brif eitem a drefnwyd oedd trafodaeth ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet a restrir isod gydag Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth:

- Twristiaeth, Rheoli Cyrchfannau a Marchnata
- Hyrwyddo Busnesau a’r Ddinas

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 24 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 25 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiad ac amser cyfarfod nesaf y panel/gweithgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.25 pm

**Cadeirydd**